

Ffordd Gyswilt Llangefni, Adran 1 a 2

Bwletin Prosiect: Rhagfyr 2016

GRIFFITHS

civil engineering and construction

Cyflwyniad a Diweddariad ar Ddatblygiadau

Fel bydd llawer ohonoch yn gwybod, penodwyd Griffiths gan Gyngor Sir Ynys Môn i adeiladu'r ddau ran cyntaf o Ffordd Gyswilt Llangefni.

Bydd Ffordd Gyswilt newydd Llangefni, i'r dwyrain o'r dref, wedi iddi gael ei chwblhau ar bob un o'r pedair adran, yn cysylltu campws Grŵp Llandrillo Menai Pencraig â'r A5114 wrth gyffordd Lôn Glanhwfa/Ffordd yr Ystâd Ddiwydiannol. Bydd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer nifer o fuddion datblygu economaidd yn yr ardal. Fwyaf oll, bydd yn galluogi twf ac ehangu campws y Coleg a darparu mynediad gwell i safleoedd y Parth Menter. Yn ogystal, bydd y cynllun yn gwella cysylltiadau â'r A55 a helpu i oresgyn cyfyngiadau traffig yn Llangefni.

Diweddariad ar Ddatblygiadau

Bellach mae'r prosiect yn agos iawn at ei gwblhau gyda 100% o'r haenau cyntaf tarmac wedi'i osod a'r pafinau wedi'u gorffen. Mae ein contractwr tirweddau'n gwneud cynnydd ac mae'r gwaith ffensio a phlannu wedi dechrau ers tro. Galluogodd cau'r ffordd am 5 diwrnod mis diwethaf i ni gysylltu ardaloedd newydd o amgylch y gylchfan newydd ar Lôn Penmynydd i fod yn barod ar gyfer yr arwyneb terfynol a fydd ar ddechrau Chwefror 2017.

Diweddariad Archaeolegol

Mae'r dadansoddiad yn parhau ym Mhrifysgol Caerdydd ar y gweddillion a gloddiwyd a rhyddheir rhagor o wybodaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn pan fydd ar gael.



Eisiau cysylltu â ni?

Eich Swyddog Cyswilt Cyhoeddus ymroddedig ar gyfer Cynllun Ffordd Gyswilt Llangefni yw Mandy Evans. Gellir cysylltu â hi rhwng 8am a 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener. Y tu hwnt i'r oriau hyn, neu os nad yw Mandy'n gallu ateb, gadewch neges a daw yn ôl atoch.

Ff: 03300412185

E: mandy.evans@alungriffiths.co.uk
community.alungriffiths.co.uk

Gwaith ar y gweill

Wrth i'r gwaith priffordd newydd dynnu tua'r terfyn, dim ond ychydig o gamau allweddol sydd i'w cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys ailwynebu terfynol a llinellu gwyn, codi arwyddion a goleuadau stryd yn yr ardaloedd o amgylch y cylchfannau. Er mwyn hwyluso'r elfennau hyn bydd angen cau'r ffordd ar y B5420 Lôn Penmynydd ddechrau mis Chwefror 2017. Ni ddylai'r gwaith hwn gymryd mwy nag wythnos. Bydd manylion ynghylch cau'r ffordd yn cael eu hysbysebu yn nes at yr amser.

Ymgymerir â'r gwaith plannu yn Adran 1, wrth ymyl Meithrinfa Medra yn y Flwyddyn Newydd.




Ar y dde

Y ffordd Gyswilt newydd yn cael ei hadeiladu yn Adran 2

Gweithio dros y Nadolig

Bydd y safle yn cau ar ddydd Gwener, 23^{ain} Rhagfyr 2016 dros gyfnod y Nadolig a bydd yn ailagor dydd Llun, 9^{fed} Ionawr 2017. Tynnir y goleuadau traffig ar yr B5420 yn ystod y cyfnod hwn.



Nadolig Lawen a Blwyddyn Newydd Dda

Tirlunio Ffordd Gyswllt Llangefni, Adranau 1 a 2

Fel y soniwyd, mae ein contractwr tirlunio ar hyn o bryd yn plannu coed a llwyni ar hyd y Ffordd Gyswllt Newydd. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth eang megis Pinwydden yr Alban, Ffawydden, Gwernen, Derw a choed Castanwydden Bêr. Byddant yn disodli'r rhai hynny a dynnwyd ar hyd y B5420 wrth glirio'r safle. Bydd y gwrychoedd yn cynnwys cymysgedd o Gollen, Drain Gwyn, Celyn, Eirin a llawer mwy o rywogaethau gwahanol. Bydd dros 11,000 o goed a llwyni'n cael eu plannu gyda 426 o'r rhain yn goed sefydledig dros 175cm o uchder.



Gwiwerod Coch ar y safle



Ymwelydd cyson ar y safle fu'r Wiwer Goch hon sydd wedi gwledda ar aeron a llwyni y tu ôl i'n compownd gyda'i chyfaill sydd ychydig yn fwy swil o flaen y camera!

Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth am brosiect Ffordd Gyswllt Llangefni:

<http://community.alungriffiths.co.uk/projects-in-your-area/llangefni-link-road-phase-1-2/>

neu defnyddiwch y cod QR hwn:



Buddion Cymunedol

Casgliad Banc Bwyd Ynys Môn

Mae aelodau o dîm adeiladau Ffordd Gyswllt Llangefni wedi addo cyfrannu cost un peint, oddeutu £3, y Nadolig hwn i brynu eitemau bwyd ar gyfer Banc Bwyd Ynys Môn.

A hoffech ymuno â ni?

Mae man casglu cyfraniadau wedi'i lleoli yn nerbynfaf'r Swyddfa Safle Adeiladu, ychydig oddi ar Ffordd y Coleg, Lôn Talwrn, Llangefni. Danfonir yr holl eitemau i Fanc Bwyd Ynys Môn ar ddydd Mercher, 21^{ain} Rhagfyr.

Eitemau sydd eu hangen yn cynnwys:

Ffrwythau Tun (400gm)	Bagiau Te (80)
Pwdin Reis Tun	Llaeth UHT (1 litr)
Cynnyrch Cig Tun	Bwyd Babanod
Papur Toiled	Siwgr

ON: Dim pasta, ffa pob neu eitemau ffres – diolch!

Ymgyrch *Tashwedd* – codi arian drwy dyfu '*tash*'!

Cytunodd bedwar aelod o dîm adeiladu Ffordd Gyswllt Llangefni i ymuno â'r ymgyrch *Tashwedd* eleni a thyfu mwstas i godi arian ar gyfer yr elusen wrth godi ymwybyddiaeth am faterion iechyd dynion hefyd.



Llongyfarchiadau i Osian, John, Wyn ac Iolo sydd rhyngddynt wedi codi dros £700 at achos haeddiannol.

Byddem yn falch o glywed eich sylwadau. Gallwch gysylltu drwy ein safle gwe community.alungriffiths.co.uk neu drwy gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus Mandy Evans ar 03300412185

Calls to this number are charged at national call rates and included in inclusive minute plans from landlines and mobiles



Follow us on Twitter @AlunGriffiths_